Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Adroddiad 01 -20 gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Medi 2020

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.wales**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Adroddiad 01 -20 gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Medi 2020

www.senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddSafonnau

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Jayne Bryant AS**
Llafur Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Rhun ap Iorwerth AS**
Plaid Cymru



**Andrew RT Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**David J Rowlands AS**
Plaid Brexit

# Cynnwys

**Argymhellion** .......... **5**

**Cyflwyniad** .......... **6**

**1. Trafod y gŵyn** .......... **8**

Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor .......... 8

Argymhelliad y Pwyllgor - Sancsiynau posibl .......... 8

Materion yn codi o'r gŵyn hon .......... 9

**Atodiad A: Adroddiad gan y Comisiynydd Safonau** .......... **12**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Senedd, yn unol â pharagraff 7.12(iii) o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd, fod achos o dorri'r Cod wedi'i ganfod ond na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach........ Tudalen 9

# Cyflwyniad

**1.** Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad (y Pwyllgor) yn Rheol Sefydlog 22.[1] Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, mae'n rhaid i'r Pwyllgor:

> "mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau ... ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi."[2]

**2.** Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.1 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd[3] (y Weithdrefn), ac mae'n ymwneud â chŵyn yn erbyn Vikki Howells AS.

**3.** Mae adroddiad y Comisiynydd Safonau Dros Dro (y Comisiynydd) ar ei ymchwiliad i'r gŵyn wedi'i gynnwys yn Atodiad A. Mae'n nodi manylion y gŵyn a chanfyddiadau ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd.

**4.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion y gŵyn a'r hyn a ystyriodd y Pwyllgor wrth lunio ei argymhelliad.

**5.** Mae'r gŵyn yn ymwneud â chyfarfod Grŵp y Blaid Lafur ym mis Tachwedd 2019, a defnyddio adnoddau'r Senedd (sef ystafell yn Nhŷ Hywel) at ddibenion plaid wleidyddol. Fe'i gwnaed yn erbyn Vikki Howells AS, yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd Grŵp y Blaid Lafur.

**6.** Roedd Jayne Bryant AS, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, yn bresennol yn y cyfarfod sy'n destun y gŵyn hon, sef cyfarfod Grŵp y Blaid Lafur ym mis Tachwedd 2019. Felly, dewisodd hi i beidio â bod yn rhan o holl drafodaethau'r Pwyllgor a oedd yn ymwneud â'r gŵyn hon o dan Reol Sefydlog 22.5. Roedd eilydd y Pwyllgor hefyd yn bresennol yn y cyfarfod dan sylw, ac felly dewisodd yr eilydd i beidio â bod yn rhan o drafodaethau'r Pwyllgor am yr un rheswm. Yn sgil hynny, cadeiriwyd yr eitemau perthnasol ar yr agenda gan Andrew RT Davies AS, a hynny fel Cadeirydd dros dro y cytunwyd arno gan y Pwyllgor, yn unol â pharagraff 10.2 o'r weithdrefn gwynion.

---

[1] Y Rheolau Sefydlog

[2] Rheol Sefydlog 22.2(i)

[3] Gweithdrefn Senedd Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

**7.** Paratowyd fersiwn derfynol o'r adroddiad hwn ym mis Mawrth 2020, ond gohiriwyd y broses o gyflwyno'r adroddiad gerbron y Senedd oherwydd pandemig COVID-19.

# 1. Trafod y gŵyn

**8.** Roedd y gŵyn yn honni bod yr Aelod dan sylw, Vikki Howells AS, wedi methu â chydymffurfio â pharagraff 10 o'r Côd Ymddygiad, sy'n dweud:

> "Gofynnir i Aelodau gydymffurfio â'r Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r [Senedd] ac unrhyw ganllawiau ar y defnydd o adnoddau'r [Senedd] sy'n ymwneud yn benodol ag ymgyrchoedd etholiadol."

**9.** Yn benodol, yn ôl y gŵyn, yn ystod cyfarfod Grŵp y Blaid Lafur ar 12 Tachwedd 2019, caniatawyd i Louise Magee, Ysgrifennydd Cyffredinol Llafur Cymru, ddefnyddio ystâd y Senedd at ddibenion plaid wleidyddol mewn perthynas â'r Etholiad Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2019, a hynny'n groes i'r canllawiau.

**10.** Mewn cyfarfod ar 3 Mawrth 2020, cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth gychwynnol ar y gŵyn a chlywodd dystiolaeth lafar gan Vikki Howells AS. Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod pellach ar 10 Mawrth 2020 er mwyn trafod y gŵyn ac er mwyn dod i gasgliad yn ei chylch.

## Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor

**11.** Bu'r Pwyllgor yn trafod a dorrodd yr Aelod Reol Sefydlog 22.2(i).[4]

**12.** Wrth ystyried p'un a dorrwyd y rheol ai peidio, adolygodd y Pwyllgor y ffeithiau a ganfu'r Comisiynydd ac a nodwyd ganddo yn ei adroddiad, yn ogystal â barn y Comisiynydd fod rheol wedi'i thorri, ochr yn ochr â'r cyflwyniad llafar a wnaed gan Vikki Howells AS mewn ymateb i ganfyddiadau'r Comisiynydd.

Ar ôl adolygu adroddiad y Comisiynydd Safonau, mae'r Pwyllgor o'r farn bod Vikki Howells AS wedi torri paragraff 10 o'r Cod Ymddygiad yn rhinwedd ei gweithredoedd fel Cadeirydd Grŵp y Blaid Lafur.

## Argymhelliad y Pwyllgor - Sancsiynau posibl

**13.** Mae achos o dorri'r Cod gan unrhyw Aelod o'r Senedd yn fater difrifol ym marn y Pwyllgor. Mae enw da Senedd Cymru, a ffydd a hyder y cyhoedd yn y

[4] Rheol Sefydlog 22.2(i)

sefydliad, yn dibynnu ar allu'r Aelodau i ddangos uniondeb ac arweiniad drwy eu gweithredoedd.

**14.** Serch hynny, mae'r Pwyllgor o'r farn bod yr achos hwn o dorri'r rheolau yn anfwriadol, ac wedi deillio'n rhannol o ddiffyg eglurder ynghylch y canllawiau a gyhoeddwyd.

> **Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell i'r Senedd, yn unol â pharagraff 7.12(iii) o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd, fod achos o dorri'r Cod wedi'i ganfod ond na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.

**15.** Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelod dan sylw, a chafodd wybod hefyd am ei hawl i apelio o dan adran 8 o'r Weithdrefn. Ni fanteisiwyd ar yr hawl hon.[5]

**16.** Mae Cadeirydd dros dro y Pwyllgor wedi cyflwyno cynnig (yn unol â Rheol Sefydlog 22.11 a pharagraff 9.1 o'r Weithdrefn) yn galw ar y Senedd i gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor.

## Materion yn codi o'r gŵyn hon

**17.** Mae paragraff 10 o'r Côd Ymddygiad yn dweud:

> "Defnyddio Adnoddau'r [Senedd]
>
> 10. Gofynnir i Aelodau gydymffurfio â'r Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r [Senedd] ac unrhyw ganllawiau ar y defnydd o adnoddau'r [Senedd] sy'n ymwneud yn benodol ag ymgyrchoedd etholiadol."

**18.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â chanfyddiad y Comisiynydd, sef mai effaith y paragraff hwn yw bod gwahanol ddarpariaethau yn gallu bod ar waith yn ystod cyfnodau etholiad.

**19.** Yn dilyn cyhoeddi'r Etholiad Cyffredinol, anfonwyd canllawiau at bob Aelod Cynulliad ar 5 Tachwedd 2019, yn datgan y rheolau ar ddefnyddio adnoddau'r Senedd yn ystod cyfnod yr etholiad. Roedd y canllawiau hyn yn cynnwys

[5] Gweithdrefn Senedd Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

darpariaethau llymach mewn perthynas â defnyddio ystafelloedd cyfarfod y Senedd.

**20.** Yn ei gohebiaeth â'r Comisiynydd, nododd Vikki Howells AS ei bod o'r farn nad oedd hi wedi torri'r rheolau. Gan gyfeirio at anerchiad Louise Magee a'r drafodaeth ddilynol, dywedodd:

> "I am clear that this brief discussion was not inappropriate and did not constitute a primary or substantial part of the meeting. The room was not also used to campaign for a political party."

**21.** Nodwn fod pob Aelod a phob swyddfa grŵp wedi cael neges e-bost ar 5 Tachwedd 2019 yn cynnwys y canllawiau ar gyfer cyfnod yr etholiad. Fodd bynnag, nodwn hefyd nad oedd y neges honno'n cynnwys eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y canllawiau ar gyfer cyfnod etholiad a'r canllawiau sydd ar waith ar adegau eraill.

**22.** Mae'r Comisiynydd yn nodi bod yr amod a ganlyn wedi'i gynnwys yn y rheolau arferol ar gyfer defnyddio adnoddau'r Senedd "…ni cheir archebu ystafell yn bennaf neu'n sylweddol er mwyn hyrwyddo gwaith yr un blaid wleidyddol."[6] Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd yn nodi hefyd nad yw'r amod hwnnw wedi'i gynnwys yn y canllawiau ar gyfer cyfnod etholiad. Nododd y Comisiynydd ei farn fel a ganlyn:

> "Mae'n anodd credu na fyddai unrhyw blaid wleidyddol sy'n cyfarfod yn ystod cyfnod etholiad yn trafod rhywfaint ar yr etholiad arfaethedig."

**23.** Yn ei adroddiad, mae'r Comisiynydd yn awgrymu y dylid ystyried a yw gwaharddiad llwyr yn ystod cyfnod etholiad yn rhesymol ac yn realistig. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y mater hwn, ac yn cytuno nad yw hwn yn ofyniad realistig o ystyried ein bod yn gweithredu mewn amgylchedd gwleidyddol. Hoffem weld yr amod sydd wedi'i gynnwys yn y rheolau a'r canllawiau ar gyfer defnyddio adnoddau'r Senedd, sef yr amod "yn bennaf neu'n sylweddol", yn cael ei ymgorffori yn y canllawiau ar gyfer cyfnod etholiad.

**24.** Mae'r Comisiynydd yn nodi yn ei adroddiad nad yw'n syndod nad oedd Vikki Howells AS wedi sylweddoli bod darpariaethau llymach ar waith yn ystod cyfnod yr etholiad. Mae'n nodi nad yw'r canllawiau yn "ceisio cynorthwyo Aelodau drwy

[6] Comisiwn y Senedd: Rheolau a chanllawiau ar ddefnyddio adnoddau'r Senedd, Paragraff 21 (Mai 2016)

dynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng y darpariaethau sydd ar waith yn ystod cyfnodau etholiad a'r darpariaethau sydd ar waith ar adegau eraill."

**25.** Wrth roi sylwadau llafar i'r Pwyllgor, eglurodd Vikki Howells AS ei bod yn ymwybodol o'r gwahanol reolau a oedd ar waith yn ystod cyfnod yr etholiad. Fodd bynnag, dywedodd fod ei dehongliad hi ohonynt yn wahanol i ddehongliad y Comisiynydd. Dywedodd hefyd y byddai'n gwerthfawrogi'r cyfle, fel Cadeirydd grŵp gwleidyddol, i ymgysylltu â swyddogion y Comisiwn cyn unrhyw gyfnod etholiad er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth glir ynghylch y rheolau a'r canllawiau sydd ar waith.

**26.** Cyfrifoldeb Aelod yw bod yn ymwybodol o'r rheolau ac unrhyw newidiadau iddynt. Fodd bynnag, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid sicrhau bod Aelodau'n ymwybodol o'r gwahaniaethau rhwng y rheolau sydd ar waith mewn cyfnod etholiad a'r rhai sydd ar waith ar adegau eraill. Yn sgil hynny, rydym yn argymell bod Comisiwn y Senedd:

- Yn cyfathrebu ag Aelodau er mwyn amlinellu'r gwahaniaethau rhwng y rheolau a'r canllawiau ar ddefnyddio adnoddau'r Senedd a'r canllawiau sydd ar waith mewn cyfnod etholiad.

- Yn ymgysylltu â Chadeiryddion a swyddogion y Grwpiau Gwleidyddol er mwyn sicrhau eu bod yn deall unrhyw newidiadau i'r rheolau yn glir, naill ai yn ystod cyfnod etholiad neu fel arall.

- Yn nodi'r awdurdod sy'n sail i unrhyw ganllawiau a gaiff eu cyhoeddi yn y dyfodol. Mae'r 'Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd' yn cynnwys y datganiad clir a ganlyn: *'Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi cymeradwyo'r wybodaeth yn rhinwedd ei rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Comisiwn y Senedd.'* Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddatganiad o'r fath yn y canllawiau etholiadol.

## Atodiad A: Adroddiad gan y Comisiynydd Safonau

**ADRODDIAD AR YMCHWILIAD**

gan

**Y COMISIYNYDD SAFONAU**

**DROS DRO**

**yn dilyn cwyn gan**

**NEIL McEVOY AC**

**yn erbyn**

**VIKKI HOWELLS AC**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Dyma adroddiad ar fy ymchwiliad ffurfiol i'r gŵyn yn erbyn Vikki Howells AC gan Neil McEvoy AC.

1.2. Mae prif bwyntiau'r dystiolaeth a ystyriwyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a chyfeirir at y prif ffynonellau yn y troednodiadau. Os nad ydynt o unrhyw werth tystiolaethol, mae manylion personol y rhai y cyfeirir atynt yn y dogfennau wedi'u cuddio fel nad oes modd eu hadnabod. Mae manylion y drafodaeth yng nghyfarfod y Grŵp Llafur ar 12 Tachwedd 2019 hefyd wedi'u cuddio yn yr adroddiad os nad ydynt o unrhyw werth tystiolaethol.

1.3 Mae'r dogfennau a ddefnyddiais wrth ystyried y gŵyn i'w gweld yn Atodiad A.

## 2. Y GŴYN

2.1 Ar 10 Rhagfyr 2019 ysgrifennodd Neil McEvoy AC ataf yn cwyno am ymddygiad pump o Aelodau.[1] Atododd lythyr anhysbys[2] roedd wedi'i gael ynghyd â chopi o gofnodion cyfarfod y Grŵp Llafur a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2019.[3] Nid oedd digon o sylwedd ym mhedwar o'i gwynion i gyfiawnhau ymchwilio iddynt ymhellach. Roedd y bumed gŵyn yn honni bod y darpariaethau ar gyfer defnyddio adnoddau'r Cynulliad wedi'u torri drwy ddefnyddio ystafelloedd at ddibenion gwleidyddiaeth plaid a/neu at ddibenion etholiadol. Ar 9 Ionawr 2020, ar ôl gohebu â Mr McEvoy, cefais ragor o wybodaeth ganddo a dywedodd mai cwyn yn erbyn Vikki Howells AC ydoedd.

## 3. Y DARPARIAETHAU PERTHNASOL

3.1 Mae paragraff 10 o'r Cod Ymddygiad yn darparu fel a ganlyn -

*'10. Gofynnir i Aelodau gydymffurfio â'r Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Cynulliad' ("y Rheolau"), ac unrhyw ganllawiau ar y defnydd o adnoddau'r Cynulliad sy'n ymwneud yn benodol ag ymgyrchoedd etholiadol.'*

3.2 Mae paragraff 12 o'r Rheolau'n darparu fel a ganlyn -

---

1 Dogfen 1
2 Dogfen 2
3 Dogfen 3

*'12. Mae'n rhaid i Aelodau'r Cynulliad ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad ar gyfer eu gweithgareddau fel Aelodau yn unig, ac nid at unrhyw un o'r dibenion isod, sydd wedi'u gwahardd:*

- *cyfathrebu personol, busnes neu fasnachol;*
- *gweithgarwch plaid wleidyddol o unrhyw fath, er enghraifft codi arian i blaid wleidyddol, recriwtio aelodau plaid a threfnu a rhoi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd plaid wleidyddol; ac*
- *ymgyrchu ar gyfer ethol neu ail-ethol ymgeiswyr penodol ar gyfer unrhyw rôl gyhoeddus (gan gynnwys yr Aelod dan sylw).'*

3.3 Mae paragraff 21 o'r Rheolau'n darparu fel a ganlyn -

*'21. Ni all Aelodau'r Cynulliad ond archebu ystafelloedd cyfarfod ar gyfer eu gweithgareddau fel Aelodau. Ni cheir archebu ystafelloedd cyfarfod at ddibenion plaid wleidyddol, hynny yw, ni cheir archebu ystafell* ***yn bennaf neu'n sylweddol*** *er mwyn hyrwyddo gwaith yr un blaid wleidyddol.'* [fy mhwyslais i]

3.4 Mae'r 'Canllawiau ar ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad yn ystod y cyfnod sy'n arwain at etholiad lleol neu etholiad cyffredinol y DU' ("y Canllawiau ar Etholiadau") yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn -

*'Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â defnyddio adnoddau'r Cynulliad yn ystod y cyfnod sy'n arwain at etholiad lleol ac etholiad cyffredinol y DU ac maent yn dod i rym ar unwaith.*

*Er y gall Aelodau'r Cynulliad ymgyrchu dros ganlyniad penodol yn yr etholiad lleol neu gyffredinol, nid yw hyn yn rhan o ddyletswyddau Aelod Cynulliad ac felly ni ellir defnyddio unrhyw adnoddau na chyllid a ddarparwyd gan y Cynulliad at y diben hwn. Mae adnoddau'r Cynulliad yn cynnwys darpariaethau sydd ar gael i Aelodau yn y Penderfyniad, yn ogystal â chymorth gan y Cynulliad, a ddarperir yn ganolog.*

*Archebu ystafelloedd*

*Dylid ond defnyddio ystafelloedd cyfarfod ar ystâd y Cynulliad (sy'n cynnwys y Senedd, Tŷ Hywel, Adeilad y Pierhead a safle Bae Colwyn) at ddibenion busnes y Cynulliad ac nid ar gyfer ymgyrchu am bleidleisiau ar gyfer unrhyw blaid wleidyddol, ymgyrchu dros ganlyniad penodol mewn etholiad lleol neu gyffredinol, na hybu unrhyw blaid wleidyddol neu annog pobl i'w chefnogi.'*

## 4. YR YMCHWILIAD

4.1 Ar 10 Ionawr 2010, ysgrifennais at Vikki Howells yn rhoi gwybod iddi am y gŵyn ac yn rhoi cyfle iddi wneud unrhyw sylwadau yr oedd hi'n eu hystyried yn

berthnasol i'w dderbynioldeb. Yn ogystal â'i hymateb[4] rhoddodd gopïau o'r agenda [5] i mi ynghyd â chofnodion cyfarfod y Grŵp Llafur a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2019. Honnodd nad oedd wedi gweithredu'n groes i unrhyw un o'r darpariaethau. Ar ôl cael cyngor cyfreithiol ynghylch y dehongliad priodol o'r darpariaethau perthnasol, penderfynais fod y gŵyn yn dderbyniadwy a rhoddais wybod i Neil McEvoy a Vikki Howells am fy mhenderfyniad.

4.1 Rhoddais gyfle i Neil McEvoy anfon unrhyw wybodaeth ychwanegol yr oedd yn ei hystyried yn berthnasol ataf. Ni fanteisiodd ar y cyfle hwnnw. Trefnais i gwrdd â Vikki Howells ond, yn unol â'i dymuniad hi, siaradais â hi dros y ffôn, a hynny ar 27 Ionawr 2020. Yn dilyn hynny, cytunodd ar y nodyn o'r cyfweliad.[6] Cefais wybodaeth berthnasol gan MBS.[7]

## 5. Y FFEITHIAU

5.1 Deuthum i'r casgliad bod y ffeithiau a ganlyn wedi'u cyfaddef neu eu cadarnhau -

i. Etholwyd Vikki Howells i'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y tro cyntaf ym mis Mai 2016. Cafodd ei hethol yn Gadeirydd y Grŵp Llafur ym mis Tachwedd 2017.

ii. Fel Cadeirydd, roedd yn gyfrifol am gymeradwyo'r agenda ar gyfer cyfarfodydd wythnosol y Grŵp ac am gadeirio'r cyfarfodydd hyn.

iii. Yn 2016, archebwyd Ystafelloedd Cynadledda C a D ar gyfer cyfarfodydd wythnosol y Grŵp Llafur tan ddiwedd y sesiwn gyfredol. Nid oedd gan Vikki Howells unrhyw ran yn y trefniadau hynny. Cafodd yr ystafelloedd eu harchebu'n unol â'r *'Canllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Cynulliad'*

iv. Ar 31 Hydref 2019, yn unol ag adran 1 o Ddeddf Etholiad Cyffredinol Seneddol Cynnar 2019, cyhoeddwyd y byddai etholiad yn cael ei gynnal ar 12 Rhagfyr 2019. Diddymwyd y Senedd ar 5 Rhagfyr.

v. Ar 5 Tachwedd 2019, anfonwyd copi o'r *Canllawiau ar ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad yn ystod ymgyrch etholiad lleol neu etholiad cyffredinol y DU*' at bob Aelod Cynulliad. Roedd Vikki Howells yn gwybod am y Canllawiau hyn a hefyd yn gwybod y gallai darpariaethau gwahanol fod yn gymwys yn ystod cyfnod etholiad.

vi. At 7 Tachwedd 2019, cymeradwyodd yr agenda ar gyfer cyfarfod y Grŵp ar 12 Tachwedd.

vii. Nid oedd yr agenda honno'n sôn dim am unrhyw beth yn ymwneud â'r etholiad cyffredinol.

viii. Mae cofnodion y cyfarfod ar 12 Tachwedd 2019 yn grynodeb cywir o'r hyn a ddigwyddodd er nad yw hyd y testun ar gyfer pob eitem yn adlewyrchu'r amser a dreuliwyd arno. Er i'r cyfarfod bara 69 munud,

---

4 Dogfen 4
5 Dogfen 5

[6] Dogfen 6
[7] Dogfen 7

dim ond rhwng pump a chwe munud a dreuliwyd ar Eitem 876/19 '*y wybodaeth ddiweddaraf am yr etholiad cyffredinol gan Louise Magee, Ysgrifennydd Cyffredinol Llafur Cymru.*

ix. Heblaw am Louise Magee, roedd pawb arall a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn Aelodau Cynulliad, yn aelodau o'u staff cymorth neu'n gynghorwyr arbennig. Roedd pawb a oedd yn bresennol yn aelodau o'r Blaid Lafur.

x. Roedd gan Louise Magee wahoddiad sefydlog i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Grŵp. Mater iddi hi'n llwyr oedd pryd y byddai'n bresennol.

xi. Daeth Vikki Howells yn ymwybodol o bresenoldeb Louise Magee pan welodd hi'n dod i mewn i'r ystafell rai munudau ar ôl i'r cyfarfod ddechrau.

xii. Nid oedd yn ymwybodol bod Louise Magee yn dymuno annerch y cyfarfod nes iddi ofyn a fyddai'n cael gwneud hynny ar ddiwedd y drafodaeth ar *'Fusnes yr wythnos hon a chyhoeddiadau'r chwip '* (Eitem 875/19 yn y cofnodion).

xiii. Ni cheisiodd Vikki Howells atal Louise Magee rhag annerch y cyfarfod ynglŷn â'r etholiad cyffredinol oherwydd ei bod yn credu bod hynny'n cael ei ganiatáu mewn cyfarfod preifat o aelodau'r Blaid Lafur, a hynny oherwydd nad yr anerchiad oedd diben pennaf na sylweddol y cyfarfod.

## 6. YSTYRIED Y DYSTIOLAETH

6.1 Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth nad oedd yr anerchiad a'r drafodaeth y cyfeiriwyd atynt yn Eitem 876/19 o'r cofnodion o dan y pennawd '*General Election Update from Louise Magee, Welsh Labour General Secretary'* yn cyd-fynd â'r disgrifiad a ganlyn: '*ymgyrchu i ennill pleidleisiau i unrhyw blaid wleidyddol, ymgyrchu i sicrhau canlyniad penodol mewn etholiad lleol neu gyffredinol, neu hyrwyddo unrhyw blaid wleidyddol neu annog pobl i'w chefnogi'* sydd i'w weld yn y Canllawiau Etholiadau. Ni allaf dderbyn haeriad Vikki Howells ei bod yn dderbyniol trafod gwleidyddiaeth plaid a/neu faterion etholiadol yn y cyfarfod hwn gan mai cyfarfod preifat ydoedd a dim ond aelodau'r Blaid Lafur oedd yn bresennol. Yn syml iawn, nid oes unrhyw sail i haeriad o'r fath.

6.2 Pe bai'r ystafelloedd cynadledda'n cael eu defnyddio'n unol â Rheol 21 o'r Rheolau ar 12 Tachwedd 2019, mae'n bosibl y gallai Vikki Howells haeru bod eu defnyddio am rhwng 7% ac 14% o'r cyfarfod cyfan yn cyd-fynd â'r rheolau gan nad oeddent yn cael eu defnyddio'n *bennaf nac yn sylweddol* at ddibenion etholiadol

6.3 Nid yw'n angenrheidiol nac yn briodol imi fynegi barn am y mater hwnnw, a hynny oherwydd, ar ôl cael cyngor cyfreithiol, rwy'n sicr nad Rheol 21 oedd yn gymwys i'r defnydd o'r ystafelloedd ond, yn hytrach, darpariaethau'r Canllawiau Etholiadau a anfonwyd at yr holl Aelodau ar 5 Tachwedd. Mae'r Canllawiau'n gosod gwaharddiad absoliwt ar ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad i '*ymgyrchu i ennill*

*pleidleisiau i unrhyw blaid wleidyddol, ymgyrchu i sicrhau canlyniad penodol mewn etholiad lleol neu gyffredinol, na hybu unrhyw blaid wleidyddol neu annog pobl i'w chefnogi.*' Nid yw'r Canllawiau Etholiadau'n cynnwys geiriad sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth yn Rheol 21 sy'n cyfeirio at *'yn bennaf neu'n sylweddol'*.

6.4 Nid yw'n syndod bod darpariaethau gwahanol, llymach yn gymwys i ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad yn ystod cyfnodau etholiad. Mae Paragraff 10 o'r Cod yn amlwg yn rhagweld y gallai darpariaethau gwahanol fod yn gymwys yn ystod cyfnod etholiad. Roedd Vikki Howells yn gwybod bod y Canllawiau Etholiadau wedi'u cyhoeddi ond mae'n ymddangos nad oedd wedi sylweddoli eu bod yn cynnwys darpariaethau llymach na'r canllawiau sydd ar waith ar adegau eraill.

6.5 Nid yw'n syndod nad oedd wedi sylweddoli bod darpariaethau llymach ar waith yn ystod cyfnod yr etholiad. Nid yw'r Canllawiau'n ceisio cynorthwyo Aelodau drwy dynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng y darpariaethau sydd ar waith yn ystod cyfnodau etholiad a'r darpariaethau sydd ar waith ar adegau eraill. Nid yw'r Canllawiau ychwaith yn nodi'n glir o dan ba awdurdod y cânt eu cyhoeddi. Mae hyn mewn cyferbyniad llwyr â Rheol 2 sy'n nodi *'2. Mae'r wybodaeth wedi'i chymeradwyo gan Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Cenedlaethol yn rhinwedd ei swydd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.'*

**7. CASGLIAD**

7.1 **Rwyf wedi fy argyhoeddi bod Vikki Howells, fel Cadeirydd y cyfarfod, wedi torri'r Canllawiau Etholiadau ac felly wedi gweithredu'n groes i baragraff 10 o'r Cod drwy ganiatáu i'r ystafelloedd gael eu defnyddio ar gyfer anerchiad Louise Magee a'r drafodaeth ddilynol.**

**8. EGWYDDORION CYFFREDINOL**

8.1 Mae'r gŵyn hon yn dangos yn glir fod angen ystyried o dan ba amgylchiadau y gellir archebu adnoddau'r Cynulliad a'u defnyddio at ddibenion gwleidyddiaeth plaid a/neu at ddibenion etholiadol. Mae'n ymddangos bod rheol 12 o'r Rheolau yn gosod gwaharddiad llwyr ar ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad at y dibenion hynny. Mae brawddeg gyntaf Rheol 21 yn adlewyrchu'r gwaharddiad llwyr hwnnw. Fodd bynnag, mae'r ail frawddeg yn gwanhau'r gwaharddiad llwyr hwnnw drwy gyflwyno'r amod yn ymwneud â defnyddio adnoddau'n *'' bennaf neu'n sylweddol'*. Er na chaiff hyn ei grybwyll, mae'n glir y bwriedir i'r amod hwn gynnwys y defnydd o ystafelloedd. Mae'r amod yn cydnabod bod busnes y Cynulliad yn wleidyddol a, drwy ei drafod o fewn strwythur cydnabyddedig grŵp plaid, gellir ceisio ymateb gwleidyddol y grŵp hwnnw i'r busnes gerbron y Cynulliad. Mae bron yn anochel y ceir rhai sylwadau byr yn ymwneud â gwleidyddiaeth plaid mewn unrhyw gyfarfod o Aelodau plaid wleidyddol a'u staff. Os bydd Aelodau'n sôn am unrhyw beth heblaw busnes y Cynulliad, mae'r

amod yn atal hynny rhag torri Rheol 21. Fodd bynnag, nid yw'r Canllawiau Etholiadau yn cynnwys yr amod hwn ac mae'n gosod gwaharddiad llwyr ar weithgarwch o’r fath. Mae’n anodd credu na fyddai unrhyw blaid wleidyddol sy’n cyfarfod yn ystod cyfnod etholiad yn trafod rhywfaint ar yr etholiad arfaethedig. Mae angen ystyried a yw gwaharddiad llwyr o'r fath yn rhesymol ac yn realistig. Nid yw'n glir ai’r bwriad oedd gosod gwaharddiad llwyr yn ystod cyfnod etholiad ynteu a gafodd yr amod ei hepgor drwy amryfusedd. Nid yw hynny’n bwysig at ddibenion y gŵyn hon. Mae’n ofynnol i’r Comisiynydd gymhwyso’r darpariaethau a oedd ar waith ar yr adeg dan sylw.

8.2 Cyhoeddwyd dogfen arall fis Ionawr 2019, sef *'Defnyddio ystafelloedd cyfarfod yn y Senedd, Tŷ Hywel, y Pierhead a swyddfa’r Gogledd'* ac mae hon yn creu ansicrwydd pellach gan ei bod, o dan y pennawd *'Egwyddorion Cyffredinol,’* yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn:

- *Dim ond ar gyfer Busnes y Cynulliad y ceir archebu ystafelloedd cyfarfod.*
- *Ni cheir archebu ystafelloedd cyfarfod at ddibenion gwleidyddiaeth plaid h.y. ni cheir archebu ystafell* ***dim ond*** *i hyrwyddo gwaith yr un blaid wleidyddol.’* [fy mhwyslais i]


Mae'n ymddangos bod hyn yn caniatáu i ystafelloedd gael eu harchebu, a’u defnyddio, gellid tybio, at ddibenion sy'n ymwneud '*yn bennaf ac yn sylweddol'* â gwleidyddiaeth plaid neu ddibenion etholiadol cyhyd ag y bydd rhywfaint o Fusnes y Cynulliad, waeth pa mor fyr, yn cael ei drafod hefyd. Mae'n amhosibl cysoni hyn â Rheol 21 yn y Rheolau.

8.3 Roeddwn yn falch o glywed y bydd adolygiad o'r darpariaethau anghyson hyn yn cael ei gynnal fel mater o frys.

## 9. Y BROSES

9.1 Mae Neil McEvoy a Vikki Howells wedi cael y drafft terfynol o’r adroddiad hwn ac wedi cael cyfle i roi sylwadau ar ei gywirdeb ffeithiol. Derbyniais di o fân newidiadau ar gais Vikki Howells. Ni chefais sylwadau gan Neil McEvoy ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad.

9.2 Bydd y ddau’n cael copi o’r adroddiad terfynol pan gaiff ei gyflwyno i’r Pwyllgor.



**Douglas Bain CBE TD**

**Y Comisiynydd Safonau Dros Dro** **24 Chwefror 2020**

**todiad 4**

**DOGFENNAU A DDEFNYDDIWYD**

| Rhif | Disgrifiad |
|---|---|
| 1 | E-bost Neil McEvoy - Comisiynydd Dros Dro 10 Rhagfyr 2019 |
| 2 | Llythyr anhysbys - Neil McEvoy heb ddyddiad |
| 3 | Cofnodion cyfarfod y Grŵp Llafur 12 Tachwedd 2019 |
| 4 | Llythyr gan Vikki Howells - Comisiynydd Dros Dro 15 Ionawr 2020 |
| 5 | Agenda cyfarfod y Grŵp Llafur 12 Tachwedd 2019 |
| 6 | Nodyn o'r cyfweliad â Vikki Howells |
| 7 | E-bost PaVVS i Swyddfa’r Comisiynydd Dros Dro 6 Ionawr 2020 |

**From:** McEvoy, Neil (Aelod Cynulliad | Assembly Member) <[redacted]
**Sent:** 10 December 2019 17:26
**To:** Bain, Douglas (Standards Commissioner) <[redacted]s>
**Subject:** Complaint against Labour AMs
Dear Mr Bain,
Please find attached a letter sent to me by an anonymous person [redacted] The anonymous person has included what they claim are minutes of a Labour Group meeting in the National Assembly, which looks authentic to me. The meeting is alleged to have taken place on the 12th of November 2019.
Within the minutes, the Welsh Labour General Secretary, Louise Magee, is noted as being in attendance. The minutes include an update from her on Labour's General election campaign and records the following statement: 'The General Secretary thanked Members who had allowed staff to be seconded to Welsh Labour for the duration of the campaign and to Ministers who were giving up time to visit constituencies'.
[redacted] I would also like to complain about the Welsh Labour General Secretary being allowed to use the Assembly Estate for party political purposes. [redacted]
Best wishes,
Neil McEvoy AM

Document 2

Neil McEvoy AM
AM – South Wales Central
National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff

Dear Neil,

Please find attached a copy of the minutes from the Labour Group in the Welsh Assembly which I think you are will be interested in. [redacted].

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

Concerned.

Document 3

**Minutes of the one hundred and twenty third meeting of the Fifth National Assembly for Wales Labour Group held on Tuesday 12th November 2019 at the National Assembly for Wales, Cardiff Bay.**

*25 Members in attendance as follows.* [redacted]

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | Vikki Howells | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | [redacted] | |

*Also in attendance:*

| | |
|---|---|
| [redacted]- Group Staff | [redacted] - Group Staff |
| [redacted] - Group Staff | Louise Magee - Welsh Labour General Secretary |
| [redacted]- Special Advisor | [redacted] - Special Advisor |
| [redacted]- Special Advisor | [redacted] - Special Advisor |
| [redacted]- Special Advisor | [redacted]- Special Advisor |
| [redacted] Special Advisor | [redacted]- Special Advisor |
| [redacted] - Special Advisor | |

**<u>The Group meeting convened at 11.06am and finished at 12.15pm</u>**

**872/19 Welcome**

- The Chair welcomed Members to the meeting.

**873/19 Minutes of the previous meetings and matters arising**

- The minutes of the previous meetings were agreed. There were no matters arising.

**874/19 Chair's Update**

- [redacted]
- [redacted]
- [redacted]

**875/19 This week's business and whip announcement**

[redacted]

**876/19 General Election Update from Louise Magee, Welsh Labour General Secretary**

- Louise Magee updated the Group on the campaign so far, including the launch last week.
- The General Secretary stated that the Party had experienced good levels of activity despite the challenging inclement weather and that they would be looking to increase levels of activity up until polling day.
- Members were urged to assist in motivating party members to help in the campaign and a the phone bank at Transport House was now operational should any Members wish to assist with telephone canvassing.
- The Group was also updated regarding the freepost and direct mail which Welsh Labour was co-ordinating.
- **The General Secretary thanked Members who had allowed staff to be seconded to Welsh Labour for the duration of the campaign and to Ministers who were giving up time to visit constituencies.**
- Louise Magee stated that the campaign would include a big focus on North Wales and she encouraged as many Members as possible to help out. Members were asked to inform the Group Office of their availability for campaign activity, which would have to be co-ordinated with Assembly business.
- A discussion ensued about the campaign.

**877/19 Minister for Economy and Transport**

[redacted]

[redacted]

**878/19 Welsh Government Updates**

[redacted]

*There being no further business, the meeting finished at 12.15pm*

**Vikki Howells**
Aelod Cynulliad dros Cwm Cynon
Assembly Member for Cynon Valley



15 January 2020

Dear Commissioner,

Thank you for your letter dated 10th January regarding the complaint against me by Neil McEvoy AM and for the opportunity to respond in writing.

The meeting to which the complainant is referring - the National Assembly Labour Group meeting of 12th November 2019 - was, I believe, in full compliance with the *'Rules and Guidance on the use of Assembly Resources'* and the *'Guidance on the use of Assembly Resources during a local or UK general election'*.

By means of background, we hold weekly Group meetings - as do the other political groups - in order to discuss and facilitate Assembly business. These meetings are private meetings open only to Labour Assembly Members, with authorised staff in attendance.

As the attached agenda of the meeting of 12th November 2019 shows, the purpose of the meeting on 12th November was to discuss items relating to our responsibilities as Assembly Members, including our approach to the week's Assembly business and a report from the Minister for Economy & Transport.

A brief, unscheduled / ad hoc report and discussion regarding the General Election campaign arose during the course of the meeting, but this was not a formal part of the agenda and was not one of the purposes of holding the meeting.

I am clear that this brief discussion was not inappropriate and did not constitute a primary or substantial part of the meeting. The room was not also used to campaign for a political party.

As such, I believe that the meeting was in full compliance with the terms set out for the use of Assembly resources in the relevant guidance and rules.

I hope that this helps to clarify the situation.

Your sincerely,

V. Howells

**Vikki Howells AM/AC**
**Assembly Member for Cynon Valley/Aelod Cynulliad dros Cwm Cynon**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
[redacted]
www.cynulliad.cymru

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
[redacted]
www.assembly.wales

Labour Llafur

NATIONAL ASSEMBLY LABOUR PARTY
LABOUR GROUP of the NATIONAL ASSEMBLY for WALES
**Tuesday 12th November 2019**
Conference Room C & D, First Floor, Ty Hywel, Cardiff Bay
**WEEKLY MEETING - 11am**

**11.00 - 11.05 MINUTES OF THE MEETING OF NOVEMBER 5th AND MATTERS ARISING**

**11.05 - 11.10 CHAIR'S UPDATE**

**11.10 - 11.20 THIS WEEK'S BUSINESS & WHIP ANNOUNCEMENTS**

Tuesday

- Questions to the First Minister (45 mins)
- Questions to the Deputy Minister and Chief Whip (15 mins)
- Business Statement and Announcement (30 mins)
- Statement by the Deputy Minister for Housing and Local Government: Marking Remembrance Day and supporting our Armed Forces community (45 mins)
- Statement by the Minister for Environment, Energy and Rural Affairs: The Welsh National Marine Plan (45 mins)
- Statement by the Minister for Economy and Transport: The Proposed Future Delivery Model for the Business Wales Service (45 mins)
- The Public Health (Minimum Price for Alcohol) (Minimum Unit Price) (Wales) Regulations 2019 (15 mins)
- Debate: Digital Connectivity (60 mins)

Wednesday

- Questions to the Minister for Environment, Energy and Rural Affairs (45 mins)
- Questions to the Minister for Housing and Local Government (45 mins)
- Topical Questions (20 mins)
- 90 Second Statements (5 mins)
- Motions to amend Standing Orders (10 mins)
- Motions to alter the remits of Committees (10 mins)
- Motion to approve the Assembly Commission's Budget 2020-21 (30 mins)
- Short Debate: Neil Hamilton (Mid and West Wales) (30 mins)
- Debate on Stage 3 of the Senedd and Elections (Wales) Bill (180 mins)

**11.20 - 11.50 MINISTER FOR ECONOMY & TRANSPORT**

**11.50 - 12.00 WELSH GOVERNMENT UPDATES**

**12.00 - 12.10 ANY OTHER BUSINESS**

**VIKKI HOWELLS AM INTERVIEW**

By prior arrangement I interviewed Vikki Howells AM (''VH'') over the telephone on 27 January 2020. The call started at 11.01am and ended at 11.35am.

After exchanging greetings I explained the process to be followed during the interview and thereafter VH confirmed that she was content and had no questions.

VH told me that she had been an Assembly Member since 2016 and that she had a working knowledge of the Code of Conduct.

VH told me that prior to the meeting on 12 November 2019 she was fully aware that paragraph 10 of the Code required Members to comply with the Rules and Guidance on the Use of Assembly Resources and any guidance issued on the use of Assembly Resources specifically relating to an election campaign. She agreed that different rules might apply to the use of resources during an election period and at other times.

VH told me that there was a long standing booking for these two rooms for the weekly private party meetings. She had no involvement in making the booking. I responded that I was satisfied that the booking of the rooms was entirely proper.

VH told me that she had been Chair of the Labour Group since November 2017. She confirmed that one of her duties was to agree the agenda for weekly Group meetings. Normally she agreed the agenda on Thursday for the meeting the following Tuesday.

VH agreed that another of her duties as the Chair was to control what took place at the meetings.

I thanked VH for providing me with a copy of the agenda for the meeting on 12 November. She told me that she had approved it the previous Thursday (i.e. 7 November). She confirmed that there was no mention of anything to do with the General Election on the agenda.

I thanked VH for sending me a copy of the minutes of that meeting which recorded that the meeting started at 11.06am and ended at 12.15am. She confirmed that the minutes had been approved without amendment. VH told me that the amount of text for each agenda item was not a true reflection of the time spent on each. For example, the time taken for Item 877/19 Minister for Economy and Transport was much greater than for Item 876/19 General Election update from Louise Magee (''LM''), Welsh Labour General Secretary. The discussion of 876/19 had taken only 5 to 10 minutes.

VH agreed that there was no mention of LM addressing the meeting on the agenda. She told me that she had not known that LM was going to attend until she saw her entering the room some minutes after the meeting had started. LM attended the

weekly meetings as necessary. She had a standing invitation to attend. VH told me that she first knew that LM wished to address the meeting when she asked to do so at the end of Item 875/10. VH told me that she was content for LM to speak about the general Election as it was a private meeting attended by people who were all Party members. They would not be influenced to vote in a particular way by anything LM said. There was nothing new in urging those present to assist in motivating party members. The second last bullet point of Item 876/19 related to Members' Assembly responsibilities as any time spent campaigning would have to be co-ordinated with Assembly business. The brief discussion that concluded that Item focussed on policy matters in the manifesto and the need to align what was said with Welsh Government policy.

VH did not accept the proposition that in her address LM did promote and encourage support for the Labour Party. Her comments were made at a private meeting of Labour AMs and staff who were all party members.

VH told me that it was difficult to know what, if any, action she would take if the same situation arose again. At the time she did not think there was anything wrong with what was happening. As Chair, she told me, she was looking to see who wished to speak next and it was difficult to decide whether to intervene on a speaker, especially when you had no prior notice of what was going to be said and their contribution was essentially a staccato list of quick fire bullet points.

I referred VH to her letter to me dated 15 January 2020 and asked whether she had believed that the 'primary and substantial' criteria in Rule 21 of the Rules and Guidance on the Use of Assembly Resources applied in the present case and that the Rule had not been breached because LM's address was not the primary or substantial use of the rooms. She responded that she did not believe that the Rule had been broken as LMs address was not the primary or substantial use of the room, and everything that took place was in a private meeting, and the item was an unscheduled, brief part of the proceedings. She had not appreciated that the Election Guidance could be interpreted as imposing stricter requirements on private group meetings during an election period, and thought that the key test of the appropriateness of a room booking would still be the purpose of the meeting in question.

When asked if there was anything she wished to add VH said there was a need for greater clarity in the various rules and guidance, and there was a need for training for AMs and Group Chairs if the guidance, particularly the General Election guidance, was going to be interpreted as applying to private meetings, including Group meetings . It should be clear what was and what was not allowed. I concurred.

I told VH that I would send her a draft note of the interview as soon as possible.

ENDS

**[redacted] (Staff Comisiwn y Cynulliad | Assembly Commission Staff)**

| | |
|---|---|
| **From:** | [redacted] (Staff Comisiwn y Cynulliad \| Assembly Commission Staff) |
| **Sent:** | 06 January 2020 15:47 |
| **To:** | [redacted] (Staff Comisiwn y Cynulliad \| Assembly Commission Staff) |
| **Subject:** | Meeting 12th November |

Hi [redacted]

I've extracted the below information from our recurring booking database, the booking was made in 2016 as highlighted below to run until 06/04/2021, we took on this existing recurring booking from EFM (when room booking responsibility was transferred to PaVVS).

| Party Group Meetings | Organiser | PaVVS agent | Time | Location |
|---|---|---|---|---|
| Labour Group Meeting | [redacted] | [redacted] | 1000 - 1300 | Conf Room C&D |

PaVVS transferred the recurring booking into our Outlook Rooms system and it was last extended on 28/08/18 as highlighted below:

Recurring Meeting:

| | |
|---|---|
| **Attendance Numbers:** | **45** |
| **Layout:** | Require 31 chairs around the table in Conf Room C and the current set up on the conference room D side is fine. |
| **Catering: (Buffet, Refreshments or Water)** | |
| **Translation:** | |
| **Equipment:** | |
| **Frequency:** | **Every Tuesday (during term and last week of recess)** |
| **Beginning:** | |
| **Ending:** | **End of 5th Assembly** |
| **Desire to renew:** | **Y** |
| **Organiser:** | [redacted] |
| **Booking agent:** | **LF 28.8.18** |
| **Notes:** | **C&D opened up** |

Room booking guidance page with all links: https://cynulliad.sharepoint.com/sites/mem-te/SitePages/holding-event-meeting.aspx

Link to our Policy

I can't find any communication that relates specifically to this meeting.

Let me know if I can help with anything else.

Thank You

[redacted]

[redacted] Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

0300 200 [redacted]

www.cynulliad.cymru www.assembly.wales

@cynulliadcymru @assemblywales

cynulliadcenedlaetholcymru nationalassemblyforwales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddedd
Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

The National Assembly for Wales is the democratically elected body that represents the interests of Wales and its people, make
Wales, agrees Welsh taxes and holds the Welsh Government to account.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. | We welcome correspondence in Welsh or English.

Dylid ystyried unrhyw ddatganiad neu sylw a geir yn y neges hon fel un personol ac nid o reidrwydd yn fynegiant o safbwynt C
Cenedlaethol Cymru, unrhyw ran ohono neu unrhyw gorff cysylltiedig.

Any of the statements or comments made above should be regarded as personal and not necessarily those of the National Ass
Wales, any constituent part or connected body.